# IS-BWYLLGOR CRAFFU HAMDDEN A DIWYLLIANT

**(Via Microsoft Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 23 Medi 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | D.Keogh, S.Miller, S.Renkes, J.Hale a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | PWalker, W.John, M.Lewis, M.Napieralla, M. Wynne, Hall a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

2. **ADRODDIAD DIWEDDARU'R GWASANAETH HAMDDEN A DIWYLLIANT - DIWEDDARIAD LLAFAR**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad llafar ar y Theatrau, y Llyfrgelloedd a Pharc Margam.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod wedi bod yn gyfnod anodd i theatrau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd staff wedi bod yn gynhyrchiol yn y cefndir drwy ddangos cynyrchiadau rhithwir i'r cwsmeriaid.

Nodwyd bod rhai o'r staff sy'n gweithio ym maes hamdden a diwylliant hefyd wedi'u hadleoli i weithio a helpu gyda'r cynllun Monitro ac Olrhain. Roedd swyddogion yn cyfarfod yn wythnosol ar Microsoft Teams i sicrhau bod cyfathrebu a lles yn cael eu hystyried a'u trafod.

Nodwyd bod y lleoliadau bellach ar agor a Theatr y Dywysoges Frenhinol oedd un o'r theatrau cyntaf i agor a dangos cynhyrchiad.

Nodwyd ei bod yn gyfnod anodd yn ystod COVID-19 i staff Parc Margam. Ymatebodd aelodau’r staff yn dda i’r newid yn dilyn COVID-19 gan sicrhau bod yr asesiadau risg perthnasol yn gyfredol ac yn eu lle. Nodwyd bod Orendy Margam yn cael ei ddefnyddio fel canolfan frechu gan arwain at ganslo nifer o briodasau. Fodd bynnag, byddai'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio fel yr arferai gael ei ddefnyddio o fis Ionawr 2022.

Nododd yr Aelodau, oherwydd proses gaffael y Gwasanaethau Hamdden, nad oedd yr aelodau'n gallu cael diweddariad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cyd-bwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet yn y dyfodol i dderbyn diweddariad ar hyn.

Canmolodd yr aelodau’r gwaith yr oedd y tîm yn y Gwasanaethau Llyfrgell wedi’i gyflawni yn ystod COVID-19 ac roeddent yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd bod Swyddogion wedi cysylltu ag Aelodau'r Cabinet drwy gydol y pandemig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer darlledu digwyddiadau ar-lein yn y theatrau. Nodwyd y byddai swyddogion yn dosbarthu ffigurau darlledu digwyddiadau ar-lein y tu allan i'r cyfarfod.

Nodwyd bod pryderon gan breswylwyr Pontardawe ynghylch yr ymdeimlad masnachol posib i’r syniad o ddatblygu’r sinema yng Nghanolfan y Celfyddydau. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd ganddynt unrhyw uchelgais i newid awyrgylch Canolfan Celfyddydau Pontardawe.

Diolchodd yr aelodau i'r holl staff yn y maes hamdden a diwylliant am y gwaith y maent wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn dilyn craffu, nodwyd y diweddariad ar lafar.

## 3. DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2021-2022 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 1 (1 EBRILL 2021 – 30 MEHEFIN 2021)

Rhoddwyd data rheoli perfformiad chwarter 1 i'r aelodau, am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 30 Mehefin 2021 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg,

Hamdden a Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â Hamdden a Diwylliant, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Canmolodd yr Aelodau Gastell-nedd Port Talbot am eu hagwedd flaengar wrth barhau i ddiweddaru a darparu cyfleusterau nofio o'r radd flaenaf. Nodwyd bod ardaloedd eraill wedi dechrau lleihau eu cyfleusterau ac roedd yr aelodau'n falch o weld nad oedd Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud yr un peth.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

4. **<u>AMSERAU AGOR Y NADOLIG A’R FLWYDDYN NEWYDD 2021</u>**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch oriau agor y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ar gyfer 2021, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

5. **<u>Y DIWEDDARAF AM Y GWASANAETH GWEITHGARWCH CORFFOROL A CHWARAEON (PASS) - CYFLWYNIAD</u>**

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad ar y Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Canmolodd yr aelodau’r swyddogion am y gwaith a gyflawnwyd ganddynt dros y cyfnod anodd oherwydd COVID-19.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

6. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Nodwyd y Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**